

RECORDERS' NEWSLETTER



Cylchlythyr y Cofnodwyr 36 (Ionawr 2017)

Dymuniadau gorau ar gyfer y Flwyddyn newydd, a diolch am yr holl ymdrech a chofnodion sy'n cyfansoddi'r Cylchlythyr y Cofnodwyr yma. Wrth i chi ddarllen ymlaen, byddwch chi'n gweld fod 2016 yn flwyddyn ryfedd ar gyfer ein bioamrywiaeth. Ar y naill law, ymddangosai popeth yn hwyr yn 2016, oeddod y gaeaf yn hir, ac roedd yr haf hwnnw yn eithaf araf deg yn cyrraedd. Yn ogystal â hynny, fe gynhyrchodd y flwyddyn nifer o ddarganfyddiadau syfrdanol a recordiau cyffrous. Fel sy'n arferol bob amser, nid yw'r Cylchlythyr yn ddim heb yr ymdrech bioamrywiaeth dorfol felly diolch eto.

Tywydd

Roedd gwlybanaeth y gaeaf diwethaf (fel y'i cofnodwyd yng Nghylchlythyr 35) yn torri pob record. Ond fe dawelodd o'r diwedd, a throi o fod yn eithaf mwyn a gwlyb iawn i fod yn oer a sych. Roedd gwanwyn oerllyd yn un o nodweddion y flwyddyn, gan effeithio ar lawer o'r bywyd gwyllt dros y flwyddyn sy'n dod.

Anfonodd Marcus Middlehurst ei gofnodion beunyddiol gwych ar gyfer 2016, a hefyd grynhoi blwyddyn y tywydd yn grefftus ac yn gryno yn Nhrefherbert. Mae'i gofnodion yn f'atgoffa i o ddechrau gwlyb 2016, gyda mis Ionawr a'i 693mm o wlybanaeth, a mis Chwefror gyda 372mm (ac uchelfan o 60mm ar y 6^{ed} cyn i'r tywydd geisio setlo i lawr. Dyw hynny ddim yn golygu i ni gael sychdwr gydol yr amser. Ym mis Mawrth, bu o hyd 203mm o law (uchelfan o 40mm ar y 27^{ain}, er bod pymtheg o ddyddiau di-law yn olynol, ac erbyn mis Ebrill roedd lefelau wedi disgyn i 105mm. Serch hynny, roedd hyn yn cuddio'r ffaith na fu mis Ebrill yn heulog o bell ffordd. Fel y nododd Marcus '*Rhan gyntaf y mis i gyd yn wlyb, er bod y gwaddodiad yn isel iawn, ac yn difetha ein diwrnodau! Gan hynny, rydyn ni'n dal i gael tywydd braidd yn rhyfedd. Ni fyddaf yn cofnodi tymereddau, ond maen nhw hefyd yn anghyffredin.*' Cyfanswm mis Mai oedd 186mm (uchelfan o 48mm ar yr 20^{fed} ac yna ym mis Gorffennaf, nododd Marcus, '*Bu 8 niwrnod cyntaf mis Mehefin yn sych yma*', er i'r mis yn ei gyfanrwydd ddal i gael 203mm o leithder, gydag uchelfan corslyd (soggy) o 58mm ar yr 20fed roedd mis Gorffennaf yn llaith yn yr un modd, gydag 185.5mm, gan sbarduno'r sylw bron yn anobeithiol (a deimlai llawer ohonom ar y pwynt yma): '*Rwy'n gobeithio am Haf Bach Mihangel!*' Serch hynny, cynhyrchodd mis Awst gyfanswm o 293mm (glawiad uchaf - 70mm ar y 1^{af}, ac fe gododd hynny i 338mm ym mis Medi (58mm ar y 3^{ydd}). Nid tan fis Hydref y cafodd Marcus ryw ffurf ar Haf Bach Mihangel o'r diwedd (er taw fersiwn bryniau godre'r Himalaya a gawsom, o bosibl), fel y dywedodd ef '*Wel dyma fy ffigurau diweddaraf, mae'n mynd yn fwy rhyfedd byth, rhaid bod hwn yn un*

o'r misoedd (blynyddoedd) sychaf hyd yn hyn. Cyfanswm glawiad – 73mm; yr uchaf – 27mm ar y 15^{fed}; 22 o ddyddiau heb law ond bu nifer o ddiwrnodau niwlog! Bu mis Tachwedd hefyd yn gymharol sych, gyda 194mm o law a dim ond un cyfnod byr gwirioneddol wlyb o'r 19^{eg} i'r 21^{ain}. Roedd mis Rhagfyr yn dawel gyda dim ond 182mm o wlybaniaeth gyda phatrwm o lawiad aml, ond heb fod yn ormodol, gyda dau seibiant byr, rhewllyd, a sych (un ar ddechrau'r mis a'r llall yn dechrau ar Ddydd Gŵyl Steffan). Roedd hyn i gyd yn gadael 2016 Marcus gyda chyfanswm blynyddol o 3,027mm o lawiad, sy'n rhyfeddol o sych o ystyried bod dros 1,000mm yn y ddau fis cyntaf.

O Gwm-bach, crynhôdd Mark Evans 2016 drwy ddweud '*eithaf cyfartalog, mor belled ag yr âi cyfansymiau glawiad, ond ar wahân i ddau fis gwlyb i ddechrau'r flwyddyn (roedd un mis Ionawr yn eithriadol) roedd rhan fwy'r misoedd eraill naill ai yn gyfartalog neu yn is ac yn llai na hynny. Yr eithriadau oedd mis Mai, mis Mehefin, mis Awst, a mis Medi, yr oedd pob un ohonyn nhw ychydig dros y cyfartalog.*

Er ein bod yn cofio'n gywir am 2016 fel blwyddyn wael, nid oedd yn eithriadol o wlyb ar y cyfan yn gyffredinol, ond roedd yn fwy claeaf nag y dylasai fod. Gwnaed y prif niwed pennaf gan fisoedd gwlyb, heb eu setlo, yr haf, wedi'u dilyn gan aeaf hynod o wlyb. Ar ôl tyfu heb aros, drwy gydol hydref 2015, a thrwodd hyd at ddiwedd mis Ionawr; wedi'i wthio ymlaen gan y tywydd mympwyol o gynnes, roedd y gwair yn anfodlon ac yn gyndyn o ddechrau tyfu yn y gwanwyn. Y rheswm am hynny, mor bell ag roedd lawntiau domestig yn y cartref yn y cwestiwn, oedd bod y tywarch wedi colli'i wreiddiau, yn sgîl y tri mis o'r dŵr daear gwaethaf a gofiat mewn deugain mlynedd o arddio proffesiynol. A finnau yn dechrau torri lawntiau, ar ddechrau mis Ebrill, roedd hi fel torri tywarch newydd gael ei osod. Gyda'r symudiad anghywir lleiaf, byddai'n dod yn rhydd o'r pridd islaw, ac yn dangos absenoldeb gwreiddiau yn is na tua 20mm. Yn ogystal â hyn, mi welais ychydig lwyni wedi'u sefydlu yn marw drwy'r tymor am yr un rheswm: roedd tri mis o lenwi â dŵr wedi lladd y gwreiddiau.

Yn ogystal â hyn roedd Mark wedi anfon ei gofnodion cryno 'beunyddiol' ardderchog ar gyfer hanes tywydd 2016. Roedd ychydig ffigurau pennawd yn cynnwys cyfanswm o 1,734 o wlybaniaeth gyda 205 o ddiwrnodau heb wlybaniaeth dros 0.2mm. Felly, fel y nodwyd yn flaenorol cyn hyn, mae gan Gwm-bach (yng nghanol Cwm Cynon) rywle rhwng hanner a thraean yn llai o lawiad na Threherbert ym mhen uchaf Cwm Rhondda Fawr. Fel gyda chofnodion Marcus, mae cyfanswm blynyddol Mark yn cynnwys mis Ionawr 2016 gwlyb iawn (400mm o law) a mis Chwefror eithaf gwlyb, ac yna'r deng mis nesaf pan yr ymddengys fod glawiad cymedrol wedi'i ddsbarthu yn weddol gyfartal. Gan hynny, rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr roedd pob un o'r holl fisoedd yn gorwedd o fewn ystod o 10 i 19 o ddiwrnodau gyda glawiad, a'r misoedd sychaf yn fis Gorffennaf a mis Hydref, oedd â chyfansymiau o 46mm. O ran tymheredd, mae cofnodion tywydd Mark yn nodi'r ychydig ysbeidiau o dywydd heulog 'poeth' y buom yn eu profi, gydag wythnosau cynnar mis Mehefin yn brigo ar 26 gradd Celsius ar y 5^{ed}, pwl sydyn ym mis Gorffennaf yn cynnig 26 gradd Celsius ar y 19^{eg}, a phwl bach arall o wres ym mis Awst wedi cynhesu Cwm-bach i 27 gradd Celsius ar y 16^{eg} Yn ogystal â hyn, mae'i gofnodion yn nodi gaeaf cynnar oedd, ar y cyfan, yn rhydd o rew. Ar yr un pryd, maen nhw'n tynnu sylw at ysbaid oer fer tua diwedd mis Tachwedd a dechrau Rhagfyr, gydag isafswm o 6.3 gradd Celsius ar 30^{ain} Tachwedd.

Bu cofnodion glawiad Paul Marshman ar gyfer gaeaf 2015-16 yn nodi ymhellach am wlybaniaeth y gaeaf diwethaf, gyda 16 modfedd ym mis Tachwedd, 20 modfedd ym mis Rhagfyr a 19 modfedd (sydd tua 480mm) ym mis Ionawr. Unwaith eto, mae glawiad Paul yn uwch nag un Mark, ond yn llawer llai nag un Marcus. Mae Cwm Rhondda yn llawer gwlypach na Chwm Cynon, ac mae amodau tywydd coedwig cwmwl Treherbert yn curo pawb yn rhacs. Roedd y gwanwyn oer i'w weld ym mis Mai pan ddywedodd Paul wrthyf fod ei isafswm tymheredd ar gyfartaledd ar gyfer mis Ebrill yn 2.9 gradd Celsius digon oer, o'i gymharu â'i isafswm cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol o 6 gradd Celsius.

Adar

Roedd y gaeaf cynnar mwyn yn golygu fod llawer o'r adar sy'n ymweld yn ystod y gaeaf wedi aros yn hirach yn eu mannau magu gogleddol. Bu raid aros tan Ionawr 30^{ain} cyn i Paul Marshman weld **cyffyllog (woodcocks)** cyntaf yn y flwyddyn, er ei fod yn dal heb weld **giachod (snipes)** neu **iachod bach (jack snipes)**, er bod dwy **linos bengoch (repolls)** wedi ymweld â'i ardd yn Llwynypïa. Gwelodd Jeff Williams gyffyllog yng Ngwarchodfa Natur Leol Glynconel ar yr un pryd, ac ar ben hynny fe ddaeth ar draws **petrisen goesgoch (red legged partridge)** yn Llanhari. Mae'n bosibl taw tywydd oerach mis Chwefror fu'n gyfrifol am y 25 o iachod a welais yn bwydo mewn porfeydd rhos ar gaeau'r Cwm ar 3^{ydd} Chwefror 2016.

Bu gardd David Harry yn Llanharan yn croesawu **llinosiaid gwyrddion (greenfinches)**, **ji-bincod (chaffinches)**, **pilaod gwyrddion (siskins)** a **nicos (goldfinches)** yn gynnar ym mis Chwefror. Daeth **gwalch glas (sparrowhawk)** ar ymweliad hefyd. Cafodd David **binc y mynydd (brambling)** yn ei ardd hefyd, yn gynnar ym mis Mawrth. Yn ogystal â hynny, deuai haid nythfa o 200 o **jac-dos**.

Un o arwyddion sicr y gwanwyn yw dychweliad yr **ehedydd (skylark)**, ac fe roes Paul Marshman wybod eleni am yr ehedydd yn canu ar y bannau uwchlaw'r Gelli ar 10^{fed} Chwefror. Fe roes Kevin Hughes wybod ym mis Mawrth am *'fis Ionawr tawel yn fwyaf nodedig am weld **tylluanod clustiog (short eared owls)** ar ochr Glynrhedynog i Fynydd Tŷ'n y Tyle, y gyntaf yn gynnar ym mis Ionawr, a'r ail ar 27ain Ionawr, wrth fynd â chi am dro. Ai'r un aderyn oedd yma, neu yntau dau aderyn ar wahân? Roedd haid fawr o **linosiaid (linnets)** i'w gweld yn gaeafu, ac mae ehedyddion cynnar yn ôl ar y Mynydd'. Nododd Kevin yn ddiweddarach, *'Dechreuodd pethau godi o'r newydd ym mis Mawrth. Dechreuodd ehedyddion, **corhedyddion y waun (meadow pipits)** a **chlochdariaid y cerrig (stonechats)** ymgartrefu o'r newydd. Ymhlith y pethau nodedig eraill a welais roedd llinosiaid **pengoch lleiaf (lesser repolls)** yng Nglofa'r Maerdy, **barcud coch** uwchben y Lluest Wen, a **chigydd mawr (great grey shrike)** y cefais hyd iddo tua thraean o filltir i'r gogledd o'r gronfa ddŵr. Ar hyn o bryd, mae **siff-siaffod** yn dechrau, ac felly mae mudo yn ei anterth'. Bu'n sôn hefyd am 'yr unig löyn hyd yn hyn, sef **melyn y rhafnwydd (brimstone)** ar hyd ffordd yr A470 yn agos i Rydfelen'.**

Ym mis Ebrill yn Llantrisant, cofnododd Dave Penberthy ddychweliad **gwenoliaid (swallows)**, **siff-siaffod** a **thelorian penddu (blackcaps)** ar y 4^{ydd}. Dyma e-bost a gefais gan Ben Williams ar 6^{ed} Ebrill, *'Roeddwn i'n gweithio i fyny ger Clwb Golf Pontypridd ddoe, a dyma fi yn gweld fy ngwennol gyntaf o'r flwyddyn'.* Cefais innau gyfle i wyllo hyd at 20 o wenoliaid y glennydd (san martins) yn bwydo uwchben Pontypridd ar 11^{eg} Ebrill, gydag adar yn dod yn agos i ffenestri 6ed llawr Tŷ Sardis.

Ar 19^{eg} Ebrill, ar Gors Llanilltud Faerdref, a minnau'n archwilio cynefin **brithegion y gors (marsh fritillaries)**, roeddwn i wrth fy modd yn gweld pâr nythu o **glochdariaid y cerrig (stonechairs)**, dau **orhedydd y coed (tree pipits)** yn canu, **telor yr helyg (willow warbler)**, **siff-siaff**, a **bras y cyrs (reed bunting)**, bob un yn dal trefedigaethau. (Cadarnhaodd Ben Williams yn ddiweddarach fod breision y cyrs wedi llwyddo i nythu.) Ar 21^{ain} Ebrill, roedd dau gyw **cwtiar** ar y llyn isaf yng Nghwm Clydach, a dau grŵp o gywion **hwyaden wyllt**. Erbyn 22^{ain} Ebrill, roedd dwsinau o **wenoliaid y bondo (house martins)** yn gwibio heibio i ffenestri lloriau uwch Tŷ Sardis, yn ogystal â **gwenoliaid (swifts)** cyntaf y gwanwyn. Serch hynny, roedd adar mudol ar y cyfan yn hwyr yn 2016, ac erbyn yn gynnar ym mis Ebrill daeth e-bost gan Mark Evan '*Ni welais i'r un wennol eto! Ni chlywais, na gweld chwaith, yr un telor yr helyg neu delor penddu. Yr unig adar mudol a welais i hyd yn hyn yw siff-siaffod, tinwennod y garn (wheaters), a mwyelch y mynydd (ring ouzels). Caiff sioe flodau Cymdeithas Arddwriaethol Frenhinol Caerdydd ei chynnal y flwyddyn nesaf a dyna, mae'n debyg, yw'r dyddiad traddodiadol i gog Cefnpennar gyrraedd.*'

Mae cyflwr enbyd y gog yn tynnu sylw llawer ohonom. Dyna pam roeddwn i'n falch i glywed gan Paul Marshman fod **cogau (cuckoos)** wedi dychwelyd i Domenni a Thipiau'r Gelli, Cwm Rhondda, ar 28^{ain} Ebrill, gyda thri aderyn i'w weld ar y 5ed o Fai. Ar yr un pryd, roedd hyd at bum **hwyaden ddanheddog (goosanders)** i'w gweld o hyd ar Afon Rhondda yn gynnar ym mis Mai. (NODER: câi ambell i hwyaden ddanheddog ei chofnodi hyd at 13^{eg} Mai: ni fydd neb yn synnu os darganfyddwn ni fod hwyaid danheddog yn nythu rywle ar Afon Rhondda neu Afon Cynon. Gwelodd Paul chwech o gwtieir (coots) ifainc ar Lyn Glyncornel ym mis Mai, a daeth chwe rhywogaeth o nicos (finches) i ymweld â'i ardd yn gynnar ym mis Mai. Soniodd fod niferoedd da o siff-siaffod a thelorion penddu yn ôl ond nad oedd **tingochion (redstarts)**, gwaetha'r modd, yn gwneud yn dda o gwbl. Diolch i'r drefn, erbyn 6^{ed} Mai roedd **telorion y coed** yn ôl yng Nglyncornel (yn y prynhawn) gyda thri o wrywod yn canu erbyn 9^{fed} Mai. Pan rois i gymorth i Gyfoeth Naturiol Cymru i fonitro'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ym mis Mai, fe glywsom ni dri neu bedwar o bosibl o wahanol wrywod yn canu: hyn i gyd yn galonogol dros ben.

A Ben Williams yn chwilio am frithegion y gors (marsh fritillary) yn Nhonyrefail, roedd modd iddo leddfu '*undonedd chwilio am ddim byd drwy wrando ar gân cog oedd â gwddf tost. Clywodd y gân 'cw-cw' bedair o weithiau, ond er bod y 'cw' yn weddol roedd rhyw dinc cras neu grafog yn y 'cw'. Er i'r aderyn ganu rhagddo, dirywio wnâ'i gân yn fawr ddim mwy na 'cwc...'. Ond nid oedd hyn yn mennu dim arno. Daliai i ganu'i nodyn, dri neu bedwar ar y tro, ac yna orffwys am ychydig cyn dechrau arni o'r newydd. Dyna braf yw gwylio Natur!*' Roeddwn i'n falch i glywed cog ger y Mountain Ranch uwchlaw Tŷ Rhiw yng nghornel dde-orllewinol Rhondda Cynon Taf hefyd. Ac fe welodd Sue Westwood, a gweld, un o gogau Paul ar wifren deligraff uwchben Gwarchodfa Natur Leol Glyncornel.

Ar 16^{eg} Mai fe roes David Harry adroddiad am **fronwen y dŵr (dipper)** ar y ffrwd y tu allan i'w gartref yn Llanharan, ynghyd ag 20 o **adar y to (sparrows)**. Yn gynnar ym mis Mehefin, anfonodd Alan Rosney y canlynol o achlysur Clwb Adar Morgannwg, '*Cawsom 21 o bobl ar gyfer ein taith gerdded troellwyr mawrion (nightjars) yn Llanwynno neithiwr. Roedd sŵn y troelli yn fyr ac yn llym tua 10 o'r gloch. Gwelsom dri throellwr mawr a chlywed un arall. Ar un adeg, roedd cog yn hedfan gyda'r troellwyr mawrion.*'

Anfonodd Tony Swann ei grynodbau ardderchog o gofnodion adar (ac eraill) ar gyfer 2016, o Warchodfa Natur Coed y Brynna yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt yn Llanharan.

Gaeaf – Cyfanswm nifer y rhywogaethau o adar a welwyd

Ionawr – 37 Chwefror – 36 Mawrth – 41

Mis gwlyb ond tawel oedd Ionawr. Y peth mwyaf diddorol i'w weld oedd pilaod gwyrddion (siskins) ar y 19^{eg} a grŵp o tua 10 o linoisiaid pengoch lleiaf ar y 25^{ain}.

Parhaodd mis Chwefror ar yr un trywydd, gyda philaod gwyrddion ar y 5^{ed} a'r 23^{ain}, ynghyd â breision y cyrs (reed buntings) yn bwrw'r gaeaf. Roedd **cwpanau robin goch (scarlet elf cups)** i'w gweld ymhell cyn diwedd y mis. Dyma, mae'n debyg, fydd f'unig ymgais i adnabod ac enwi ffyngau!

Mis Mawrth a'r agorawd i'r gwanwyn (gobeithio)

Ar y 4^{ydd} gwelwyd dros 30 o **socanod eira (fieldfares)** a niferoedd llai o **gochion dan adain (redwings)** mewn cae cyfagos wrth yr ymyl dde-orllewinol - ar draws y llinell reilffordd. Rwyf yn tybio bod y niferoedd mawr o socanod eira yn rhan o'r crynodiadau a wnânt cyn mudo tua'r gogledd. Roedd y golfanod preswyl yn dechrau cadw mwy o sŵn fel paratoad i'r tymor magu newydd.

20^{fed} Daeth bywyd yn ôl i'r coedwigoedd, ond hyd yn hyn ni chyrhaeddodd unrhyw adar mudol o'r de. Roedd pump o gochion dan adain (redsings) ar hyd y lle o hyd. Mae aeron yr eiddew yn dechrau meddal, a bydd **mwyelch** yn dechrau troi'n diriogaethol iawn pan fydd ganddyn nhw goeden dda i fwydo arni. Mae breision y cyrs yn dal i'w gweld yn amlwg o hyd, ond ymddengys fod y **siglennod llwyd (grey wagtails)** fu'n bwrw'r gaeaf yma wedi symud ymlaen. Yr uchafbwynt o ran mamaliaid oedd **carlwm (stoats)** yn croesi llwybr yn syth o'm blaen.

21^{ain} Cafodd y daith gerdded adar wedi'i threfnu gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru hyd i socanod eira a chochion dan adain ar gae tua'r de-orllewin dros y llinell reilffordd. Yr uchafbwynt i mi oedd gweld, a minnau'n aros am i'r lleill gyrraedd ym mhen gorllewinol y safle, dwy **gnocell fraith leiaf (lesser spotted woodpeckers)** yn hedfan o'r de-orllewin ac i mewn i'r goedwig. Nid oedd modd eu lleoli o'r newydd yn ystod y daith gerdded. Ai aros a wnaethon nhw, neu fynd ar eu ffordd drwodd? Y tro cyntaf erioed i mi weld y rhywogaeth hon, roedd ganddyn nhw droedle ar gyrion de-orllewinol yr hen safle glo brig yn Llanilid lawer o flynyddoedd yn ôl. A oes gennych chi ddi-ddordeb yn y teithiau cerdded? Hoffech chi wybod pryd mae'r teithiau yn y dyfodol? Ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth.

27^{ain} Gweld a chlywed y siff-siaffod cyntaf - naw niwrnod yn ddiweddarach na'r llynedd.

30^{ain} Gwelsom haid o **gnocellau gwyrddion** yn hedfan uwchben o'r de i'r gogledd ym mhen deheuol y Brynna

Cyfanswm nifer y rhywogaethau o adar a welwyd yn y gwanwyn

Ebrill – 40 Mai – 42 Mehefin –

3^{ydd} Ebrill Yn clywed **bwncath (common buzzards)** yn galw o hyd o rywle yn agos - ond yn methu cael hyd iddo - rhyfedd! Cefais hyd i'r aderyn o'r diwedd - gweld taw **sgrech y coed Ewrasaidd** yn creu argraff wych - ond yn ddigon da nad oedd **gwiwer lwyd** yn yr ardal. Dwi erioed wedi gweld neu glywed y fath beth o'r blaen, ond rwy'n cofio nifer o sylwadau yng ngwasg yr adarwyr fod hyn yn gallu digwydd.

5^{ed} Ebrill Daeth telorion penddu yn ôl. Roedd dau wryw yn canu, gyda'r trydydd yn ddistaw. Ymddengys fod y jac-dos a sgrechod y coed (jays) sy'n casglu deunydd nythu, a mwyafrif yr adar preswyl, eisoes wedi rhannu'n barau.

Ar ôl pythefnos i ffwrdd, ymweliadau ar 8^{fed} a 14^{eg} Mai yn cael hyd i wenoliaid, gwenoliaid y bondo, ac amryw o deloriaid. Roedd y mudo yn eithriadol o weladwy, ac yn fwynhad i'w weld. Ymddangosai fod adar yn canu ac yn galw drwy'r safle i gyd. 22^{ain} Mai Ymweliad tair awr hynod ryfeddol â'r coedwigoedd, yn dechrau am hanner dydd. Ar ymyl rhan wlyb a choediog y goedwig tua'r dwyrain, sefais yn stond pan glywais alwad **llwydfron fach**. Cymerais gryn chwarter awr i gael golwg ar yr aderyn hwn, a chael cadarnhad taw dyna beth ydoedd. Nid wyf erioed wedi cofnodi'r rhywogaeth hon o'r blaen. Rhais weddill yr amser at fwynhau adar preswyl arferol diwedd y gwanwyn, gan gynnwys llinos werdd yn symud drwy'r fan ac yn aros bob hyn a hyn i roi llais i'w galwad wichlyd. Gweld 38 o rywogaethau - yn uwch na'r hen uchafbwynt o 32 yn ystod ymweliad ym mis Mai - yr uchaf erioed! Roedd **teloriaid yr ardd** yn amlwg iawn, o'i gymharu â'u hymweliadau gwibiog arferol. Nid oeddwn i erioed wedi disgwyl gweld cymaint ohonyn nhw, yn enwedig i ffwrdd o uchafbwynt arferol y bore cynnar. Ymweliad i'w gofio!

3^{ydd} Mehefin Yn hwyr fin nos mi glywais, ac yna weld amlinelliad, **tylluan frech** fenywaidd yn hedfan allan o'r goedwig tua'r gogledd-ddwyrain. Roedd yr aderyn yn lleisio galwadau cysylltu yn ddi-dor, a rhaid bod ganddi rai ifanc yn hedfan yn yr ardal. Dros 20 mlynedd yn ôl oedd y tro diwethaf ers i un gael ei gweld yng Nghoed y Brynna.

14^{eg} Mehefin Un bore gwlyb iawn, roedd un **ydfran (rook)** unig i'w gweld yn ymbincio ar dŷ cyfagos cyn hedfan i ffwrdd a thros y coed. Mae'r rhywogaeth hon yn absennol o'r safle ers dros 30 o flynyddoedd. Serch hynny, byddai llawer ohonyn nhw'n hedfan draw uwchben, i nythfa y tu ôl i Dŷ Llanharan ac yn ôl. O ganlyniad i gau'r gwaith glo brig, symudodd yr haid glwydfan ymlaen. Gan fod gwaith echdynnu glo wedi dod i ben, nid oedd dim yn tarfu ar y pridd a'r llawr, ac roedd eu ffynhonnell bwyd wedi darfod.

25^{ain} Mehefin **Cnocellod braith mwyaf (great spotted woodpeckers)**, yn llawndwf ac yn ifanc, ym mhen Llanharan y safle. Da o beth oedd gweld y rhai ifainc.

Cyfanswm nifer y rhywogaethau o adar a welwyd yn yr haf

Gorffennaf – 30: Awst – 35:

13^{eg} Gorffennaf Ymddengys fod y goedwig yn llawn rhai ifanc, gyda **robiniaid cochion** a mweilch (blackbirds) yn fwy gweladwy na'r lleill.

14^{eg} Gorffennaf A minnau'n ymweld ag un o'm merched un bore, mi welais **alarch dof** ifanc yn hedfan draw uwchben, yr un cyntaf i mi'i weld uwchben y coedwigoedd erioed. Roedd yr alarch yn hedfan o'r gorllewin i'r dwyrain, ac mae'n debyg ei fod ar daith gan y bydd ei rieni yn gorfod gofalu am rai ifanc eleni, heb fod rhai y llynedd yn dal i lercian!

17^{eg} Gorffennaf Tua chanol y bore ehedodd pâr o **wylanod penddu** uwchben tua'r de-orllewin – rhywogaeth na welir mohoni bob blwyddyn ar y safle hwn. Yn ddiweddarach yn y prynhawn, llwyddais i weithio'r ardal ar ôl i 50 o oriau o law ddod i ben. Roedd y niferoedd a'r amrywiaeth yn isel. Mae'n adlewyrchu fod llawer o adar wedi chwilio am fwyd mewn mannau eraill heblaw am goetir diferol, a llaith iawn.

31^{ain} Gorffennaf Diwrnod olaf y mis, ac roedd y coedwigoedd yn dawel iawn ar ôl i ragor o law gyfuno â dechrau'r bwrw plu ar ôl nythu. Cymerodd dros ddwy awr cyn i mi lwyddo i weld robin goch!

6^{ed} Awst Gwalch glas ifanc (sparrowhawk), ynghyd â'r adar llawndwf. Rhaid bod cryn dipyn o alw cysylltu yn fenter gynnar iawn i ffwrdd o'r nyth.

19^{eg} Awst Bore gwlyb, wedi'i oleuo gan **fulfran (cormorant)** yn hedfan o'r dwyrain i'r gorllewin. 2010 oedd y tro diwethaf i mi weld y rhywogaeth hon uwchben y coedwigoedd.

23^{ain} Awst Mae'r robiniaid cochion wedi cwblhau bwrw'u plu, ac yn ôl yn galw. Nodwyd haid gymysg titwod gyntaf yr hydref, gyda thitwod mawr, tomos las, a phenddu, gyda dros 15 o **ditwod cynffon-hir** ynghyd ag un **dringwr bach** unig.

11^{eg} Medi Siff-siaff cyntaf yr hydref yn canu nerth ei lais.

20^{fed} Medi **Siglen lwyd** wedi dychwelyd ar gyfer y gaeaf. Mae'r llwyfan wyllo newydd sy'n wynebu dros ddôl gwartheg ar ganol cael ei hadeiladu, a mawr fydd y croeso i'r cyfleuster newydd hwn.

Cyfanswm nifer y rhywogaethau o adar a welwyd yn yr hydref

Hydref – 29: Tachwedd – 35: Rhagfyr 2019 – 40

10^{fed} Hydref – Cyfanswm o dair coch dan adain yw ymwelwyr cyntaf y gaeaf.

31^{ain} Hydref – **Cwningen** yn y coedwigoedd, anghyffredin i weld un hyd yn hyn eleni.

29^{ain} Tachwedd – Dyma ni o'r diwedd mewn cyfnod o ddiwrnodau braf oer, ac mae niferoedd rhywogaethau wedi cynyddu, gyda 27 i'w gweld mewn tair awr heddiw.

Cyfyngwyd ymwelwyr gaeaf i gochion dan adain yn unig, ac mae'r rhain wedi cyrraedd ffigurau dwbl unwaith yn unig, 60 yn hedfan uwchben ar y 23^{ain}, mewn tri grŵp.

3ydd Rhagfyr – Ehedodd un **wylan y gweunydd** unig uwchben o'r gorllewin i'r dwyrain, yn ddigon isel i gael gweld yr ehediad ysgafn a nofiadwy. Y tro cyntaf i mi weld y rhywogaeth hon ar y safle hwn.

17^{eg} Rhagfyr – Cefais hyd i'm bras y cyrs cyntaf yn bwrw'r gaeaf, un ifanc effro.

24^{ain} Rhagfyr – **Telor aelfelyn** llawndwf ym mhen dwyreiniol yr ardal wlyb rhwng y llwybr ceffylau a hen linell gangen Ogwr. Roeddwn i wedi gwirioni'n lân, ac roedd yn gyfan gwbl annisgwyl. Euthum yn ôl ar ddau ymweliad arall gan obeithio ei ddal ar y camera, ond ofer oedd y cyfan.

31^{ain} Rhagfyr – Gweld tair socan eira (fieldfares) yn ystod ymweliad yn y prynhawn Blwyddyn gynhyrchiol arall, gyda 63 o rywogaethau wedi'u cofnodi. Pum rhywogaeth newydd wedi'u cofnodi. Y gorau oedd pâr o gnocellau braith lleiaf (lesser spotted woodpecker) gydag un telor aelfelyn (yellow-browed warbler) unig a fyddai wedi teithio o'i thiroedd ac ardaloedd bridio yn Siberia.

Mae telor aelfelyn Tony yn un o uchafbwyntiau bywyd gwyllt penodol 2016. O ran golwg mae'r aderyn yn debyg i siff-siaff bychan, gyda sribed lygad felen ddisglair a dau far adain melyn disglair. Fel y dywed Tony, maen nhw'n nythu ym mhrysgwydd bedw a helyg crablyd taiga Siberia, ac yn dod i'r fei o dro i dro yn y gaeaf ym Mhrydain. Dyna record wych, fel y dywed llawer.

Ar Fehefin 18^{fed}, clywodd Paul Denning **droellwr bach (grasshopper warbler)** mewn porfeydd rhos yn Nhonyrefail. Peth dymunol iawn ym mis Gorffennaf oedd adroddiad Paul Marshman fod un pâr o **greciau'r eithin (whinchats)** wedi llwyddo i nythu ar lechwedd yng Nghwm Bodwingallt, y Gelli (ymhlith pum pâr o glochdariaid y cerrig (stonechats) yn defnyddio'r un llechwedd. Fel yr ydym wedi'i drafod uchod, roedd creciau'r eithin yn gyffredin iawn ar un adeg, ac yn nodweddiadol o ran fwyaf o ffriddoedd ochrau ein cymoedd. Gwelodd Paul sawl pâr yn bridio ar y llechweddau ar bwys Llwynypïa pan oedd clochdariaid y cerrig, oherwydd gaeafau oerach, yn adar llawer prinnach. Aeth nifer o flynyddoedd heibio ers i Paul gofnodi creciau'r eithin ifainc ar ei libart ef.

Ebostiodd Paul Denning ym mis Gorffennaf fod '**teloriaid y cyrs i'w gweld wedi'u sefydlu yn gadarn yng Nglofa'r Cwm, gyda thri o leiaf o wrywod yn canu**'. Dyna newyddion gwych, ond fe barhaodd yr ebost gydag adroddiad syfrdanol fel hyn 'A finnau ym Mharc Gwledig Cwm Clydach yr wythnos ddiwethaf, cefais hyd i fulfran wen (gannet) 2 blwydd oed wedi marw i fyny ger y chwarel. Ni synnwch ddim taw dyna f'adroddiad cyntaf o **fulfrain gwynion** o Gwm Rhondda. Mae'n debyg iddi gael ei chwythu i mewn yn ystod y gwyntoedd cryfion ychydig wythnosau yn ôl.' Mae'r cofnod anhygoel hwn yn dilyn o'r adroddiad yn y Cylchlythyr diwethaf am **wylan goesddu (kittiwake)** 'wedi'i llongddryllio' a gafodd ei chwythu i mewn, a'i gadael ar dir sych ym Mhontypridd.

Mae dychweliad bronfreithod y gaeaf wastad yn dirnod yn y flwyddyn bob amser, a gwelodd Paul Marshman ei haid gyntaf o gochion dan adain ar 3^{ydd} Hydref yn mynd heibio uwchben Llwynypïa. Mae'r llwybr a ddilynen nhw tua'r de-ddwyrain yn awgrymu taw adar o Ynys yr Île oedd y rhain. Gwelodd Paul gyffylog ar Hydref 13^{eg} (yn gynnar iawn o'i gymharu â'r ymddangosiad hwyr iawn yn y gaeaf blaenorol), yn ogystal â giachod (snipes) a hyd at dair hwyaden ddanheddog (goosander) ar Afon Rhondda. Yn ogystal â hynny, ar y 31^{ain}, fe welodd ef **leision y dorlan (kingfishers)** ar ddau lyn Cwm Clydach, gyda **gwyachod bach (little grebes)**. Yn yr wythnos flaenorol, roedd ef wedi gweld **farcutiaid cochion** hefyd, ar dri achlysur uwchben Llwynypïa. Ym mis Rhagfyr, dywedodd Hazel Penberthy wrthyf am y telor penddu yn gaeafu yn ei gardd yn Llantrisant.

Anfonodd Mark Evans drwodd ei grynodedb o'i gofnodion monitro clwydfannau **cigfrain** ar gyfer ei nythfa ym Merthyr neu Gwm Cynon yn 2016. Mae'r nythfa yma'n cynhyrchu'r cyfrif cyfartalog blynyddol ail uchaf ers i Mark ddechrau monitro yn 2002. Cynhyrchodd 2016 y ddau gyfrif misol uchaf erioed hefyd, gyda 577 ym mis Mehefin a 505 ym mis Gorffennaf. Rhaid bod y nythfa yma yn tynnu adar i mewn o ardal eang iawn o'r De. Adar eithriadol o ddeallus yw cigfrain. Yn gywir fel ag y mae Mark wedi disgrifio'r peth, rhaid bod y crynodiadau anferthol yma yn ystod yr haf o adar llawndwf a rhai ifainc blwyddyn gyntaf o fudd mwy na dim ond ymdeimlad o ddiogelwch mewn niferoedd. Nid oes gennym y clem lleiaf pa wybodaeth a enillir ac a roddir yn nhwrrw aflafar synau unigol y crawcian, clegar, a chynhyrfu y bydd clwydfan cigfrain yn eu cynhyrchu.

Planhigion

Gwelodd Paul Marshman **lygad Ebrill (lesser celandine)** yn blodeuo ar 10^{fed} Chwefror 2016, fis llawn yn gynharach na 2015: canlyniad clir i'r tywydd gaeaf cynnar mwyn. Yn ogystal â hynny, gwelodd Paul **fioledau'r coed (Viola reichenbachiana)** yn blodeuo yng Nglyncornel, rhywogaeth sydd fel arfer yn hoffi pridd tra ffrwythlon.

Digon siomedig oedd ymddangosiad blodeuo **tegeirianau'r waun (green winged orchids)** ym Mynwent Cefn Parc, Llantrisant. Ebostiodd Margaret Harding ym mis Mai fel a ganlyn '*Euthum yn ôl er mwyn gwirio a chofnodi, a chael hyd i ddau yng nghornel uchaf un cae, a naw yn rhan isaf yr ail gae. Mi wn fod hyn yn swnio'n hurt, ond bob blwyddyn byddai un ohonyn nhw yn binc, a dyna fy ffeffryn. Ond mae'r un yma ar goll, a dyma fi yn mynd yn ôl eto heddiw ac nid oedd siw na miw ohono*'. Cyfrifais y tegeirianau ar nifer o achlysuron hefyd, a chael hyd i gyfanswm o 13 o

blanhigion yn blodeuo. Fel y dywedwyd o'r blaen, serch hynny, roedd dangosiadau'r gweirgloddiau yng Nghefn Parc yn drawiadol. Da o beth fyddai ymweld â nhw y gwanwyn neu haf nesaf. Mae tegeirianau'r waun yn adnabyddus hefyd am yr amser a gymerir i sefydlu planhigion newydd, a gobeithiwn taw mater o amser yw hi (a pharhau â'r gwaith rheoli gwair) cyn i'r boblogaeth ddechrau tyfu eto.

Nododd Margaret, hefyd yn y gwanwyn, hyn ynghylch Afon Clun: *'Roeddent yn clirio ar hyd y lan. Roedd **blodau'r gwynt (wood anemone)** allan yn eu cannoedd, a chefais hyd i lain braf o **graf y geifr (ramsons)**'*. Bydd Margaret yn cadw llygad ar fflora Glofa'r Cwm, y Beddau, hefyd. Yn ôl ei neges: *'Euthum i'r Cwm ar 12fed Mehefin er mwyn edrych ar fy **nhegeirianau'r wenynen (bee orchids)**. Sioc a siom oedd darganfod fod yr isdyfiant i gyd wedi cael ei dorri'n ôl, heb ddim arwydd o gwbl. Dyma fi'n edrych ar ardal **gleision y gaeaf deilgrwn** hefyd, a darganfod fod y cyfan wedi cael ei wasgu'n fflat a bod rhywun wedi taflu hen garped yno. Euthum ar 25ain Mehefin er mwyn edrych eto. Cefais hyd i un sampl wael o degeirian y wenynen (bee orchids), mae hwn yn ardal y maes parcio, yn agos i waliau conchrid. Euthum wedyn i ardal lle mae **gleision-y-gaeaf (wintergreens)** i'w cael. Fel arfer, bydd llawer o degeirianau ond dim ond dau oedd i'w weld'*. Serch hynny, *'draw â fi i'r fan neu ardal fflat, lle roeddwn i'n falch i gael hyd i degeirianau ym mhob man, er eu bod wedi ymestyn i drawstiau pren y rheilffordd a chledrau dur y trac. Roedd tegeirianau ynghudd ym mhob man. Roedd maint a swm **meillion coch** wedi cynyddu hefyd.'* Meddai hefyd: *'Mae **bysedd y cŵn** yn cael blwyddyn dda. Wrth i chi ddod oddi wrth Gwm Clydach i lawr i'r gylchfan cyn tŷ bwyta McDonald. Ni welais gynifer ohonyn nhw erioed. Cafodd y **briallu** flwyddyn dda hefyd, ar hyd ffordd osgoi Tonyrefail'*.

Dyma a ddywedodd Paul Denning ar Fehefin 18^{fed}: *'Gair bach i ddweud fy mod wedi cael hyd i degeirianau'r wenynen ar y gylchfan ger tŷ bwyta McDonald ar ffordd yr A473, lle maen nhw'n gwneud llawer o waith. Ni welais rai eto ar derfyn y ffordd ddeuol ger siop Matalan, ond mi ddaliaf ati i chwilio.'* Gwelodd Nia Honeybun degeirianau'r wenynen hefyd, yn ardal Llantrisant.

Ac ar Fehefin 21^{ain} roeddwn i'n falch iawn (ac yn synnu braidd) i yrru heibio i **degeirianau bera (pyramidal orchid)** yn ei lawn flodau ar lain ymyl y brif ffordd ger siop Tesco, Aberdâr.

Ffyngau

Weithiau, mae ffyngau mor ddigamsyniol nes bod yn gymharol hawdd i fod yn sicr o beth ydyn nhw. Serch hynny, weithiau (wel â dweud y gwir yn eithaf aml) fe allai'r ffwng y cewch hyd iddo fod yn un o ddwy neu dri (neu'n fwy) o rywogaethau tebyg iawn: ar y pwynt hwnnw, bydd angen gwaith ditectif fforensig. Yn aml iawn, byddaf yn gweld ffyngau **cwpan Robin Goch ysgarlad** hardd yn tyfu mewn coedwigoedd gwlyb yn Rhondda Cynon Taf, ond ni fyddaf byth yn gwybod pa gwpan Robin Goch. Mae gweithio hynny allan yn cymryd ymdrech ac arbenigedd. Dim ond er mwyn cyfleu ac esbonio'r pwynt, yn gynnar ym mis Chwefror fe anfonodd Mark Evans y canlynol: *'Ar y penwythnos, mi ailddarganfuais bôn onnen ar ei sefyll, sy'n eithaf pydredig ac yn cynnal poblogaeth iach o ffwng trawiadol o hardd **Chlorociboria Sp.** Yn 2012 roeddwn i wedi'i ddarganfod yn wreiddiol, a da o beth oedd ei weld yn dal i ffynnu o hyd, yn enwedig er bod y pren staenedig i'w gael ar brydiau o dro i dro, dyma'r unig gytref sy'n ffrwytho yn rheolaidd y cefais hyd iddi erioed.'*

Fel y mae'n bosibl y byddwch chi'n gwybod, mae dwy rywogaeth o *Chlorociboria* i'w cael, (***C. aeruginascens*** ac ***aeruginosa***) sydd, yn y maes, i'w gweld at bob diben ymarferol yn gywir yr un fath. Yr unig ffordd i fod yn sicr yw archwilio a mesur y sborau, oherwydd, yn ffodus, mae sborau'r ail rywogaeth yn llawer mwy na rhai'r gyntaf. Cesglais un cwpan a'i ddodi gartref ar lithren microsgop, wedi'i orchuddio er mwyn osgoi ei sychu allan, a'i adael dros nos. Erbyn y diwrnod canlynol, roedd dyddodyn o sborau gwyn ar y lithren, ac felly roedd modd i mi ddodi smotyn o ddŵr a slip gorchuddio arnyn nhw a'u cael o dan y microsgop. Roedd pob un o'r holl sborau a fesurais tua 6-7.5 micron o ran hyd a hyd at 1.5 micron o ran lled, ac felly yn ffitio'n dwt i mewn i'r ystod maint ar gyfer *C. aeruginascens*.

Yr un diwrnod, cesglais gorff hadol cwpan Robin Goch ysgarlad, er mwyn cael gwybod p'un ai ***Sarcoscypha austriaca*** neu ***S.coccinea*** ydoedd. Sicrheais gael pentwr o sborau aeddfed ar lithren ficrosgopig drwy'r un dull fel gyda'r *Chlorociboria*, ond cyn eu harchwilio, yn gyntaf mi grefais sampl o'r tomentwm gwynnaidd sy'n haen ar y tu allan i'r cwpan, a'i osod ar lithren. O dan y microsgop, wedi'i chwyddo ganwaith, roedd blew'r tomentwm yn amlwg wedi cwrlo, yn hytrach nag yn donnog neu yn syth, a awgrymai *S. austriaca* ar unwaith ac yn ddiymdroi, gan fod blew *coccinea* yn donnog neu yn eithaf syth. Wrth archwilio ac ymchwilio'r sborau, pennau crwn oedd gan y rhan fwyaf; nodweddd o'r ddwy rywogaeth, ond roedd sborau yn bresennol hefyd a chanddyn nhw bennau oedd yn sgwâr yn fwy neu lai, rhywbeth sydd gan *austriaca*, ond ddim gan *coccinea*. Dim ond sborau sydd â phennau crwn sydd gan yr ail. Beth oedd yn dod â'r ddadl i ben oedd presenoldeb llond dwrn o sborau - yr oedd eu pennau nhw yn blaguro sborau eraill. Dyma rhywbeth nad yw *coccinea* ddim yn ei wneud, felly lliw ysgarlad oedd y cwpan Robin Goch (*S. austriaca*), ac nid yn lliw rhuddem (*S. coccinea*). Mae'n braf cael adnabod diffiniol gyda'r parau lletchwith yma o rywogaethau, ac felly mae'n broses ddiddorol a phleserus.

A ninnau'n trafod pwnc microffygau, y tro nesaf i chi weld y **goesgoch (herb robert)**, mynnwch graffu yn nes ar y dail hŷn sydd wedi goroesi'r gaeaf. Mae'n debyg y gwelwch yma ac acw ryw smotiau bach botymog ar rai ohonyn nhw, a'r rheiny yn aml yn ymestyn ar y petiol. Dyma gyrff hadu ffwng o'r enw ***Coleroa robertiani***. Cefais hyd iddo bob man y cefais hyd i'r planhigyn ond, weithiau, bu raid i mi chwilio ychydig cyn cael hyd i'r planhigyn. Mae'n eithaf cyffredin yn ôl pob tebyg, ond heb gael ei gofnodi ddigon.

Mae Grŵp Ffyngau Morgannwg yn mynd o nerth i nerth, ac erbyn hyn mae pob math o rywogaethau prin ac anghyffredin yn cael eu darganfod yn yma yn y De. Bu 2016 yn flwyddyn lwyddiannus ar gyfer darganfyddiadau eithriadol. I ddechrau, anfonodd Mark Steer y canlynol ataf;

Ffwng *Hypoxylon* ar wernen – *Hypoxylon fuscoides*

Mae hon yn rhywogaeth ar restr flaenoriaethol prosiect ffyngau a gollwyd ac y cafwyd hyd iddyn nhw yng Ngerddi Botaneg Brenhinol Kew. Dim ond un yn unig a gofnodwyd ar safle yn y Deyrnas Unedig yn flaenorol cyn hynny. Serch hynny, dechreuodd Emma Williams, o Grŵp Ffyngau Morgannwg, yn ddiweddar ar daith i geisio dod o hyd i hyn yn Is-sir 41 Morgannwg a chwilio am hypoxylon ar safle hen Lofa Coed Elái yn agos i Lantrisant.

Mae'r rhywogaeth hon bron yr un ffunud â o **Hypoxylon fuscum**, sy'n digwydd yn eang a helaeth ar wern hefyd. Mae, fodd bynnag, brawf cemegol syml sy'n rhoi gwahaniad cychwynnol - bydd toddiant potasiwm hydrocsid (KOH) yn cynhyrchu adwaith porffor gydag **H.fuscoïdes** ond un melyn/brown gydag *H.fuscum*. Gan wybod bod gyda fi gyflenwad o doddiant KOH, daeth Emma ataf â llond cwdyn mawr o frigau gwern gyda hypoxylon arnyn nhw. Torrais nifer o gyrff hadu o bob un ohonyn nhw, a'u gosod ar lithrennau microsgop a rhoi diferyn o doddiant KOH arnyn nhw, ac, o fewn 10 eiliad, daeth y lliw yn amlwg. Dangosodd y samplau cychwynnol liw melyn/brown – sy'n dangos *H.fuscum*, ac yna o un sbrigyn mi ddechreuais gael lliw porffor.

Cafodd y sbrigyn hwn ei yrru i Erddi Kew ac fe gadarnhaodd Brian Douglas drwy archwiliad microsgopig fod Emma wedi cael hyd i *H.fuscoïdes* yn wir! Cafodd hyn ei gadarnhau yn annibynnol gan Mark Evans hefyd.

Roedd Gerddi Kew yn awyddus y dylem edrych eto ar safleoedd Coed Elái er mwyn ceisio penderfynu pa mor niferus yw'r rhywogaeth hon. Gwnaethpwyd ymweliad pellach gydag Emma, ei mab ifanc Callum, a minnau, gyda'n toddiant KOH a'n tiwbiau sampl er mwyn i ni allu ymchwilio yn y maes. I gychwyn, roeddem ni'n cael hyd i ddigonedd o *H.fuscum*, ond yna fe ddechreuon ni weld y lliw porffor sy'n dangos *H.fuscoïdes*! Bellach, mae gennym gyfeiriadau Grid cywir ar gyfer y coed hynny sydd â'r rhywogaethau targed, fel bod modd i ni ddychwelyd iddyn nhw os bydd angen hynny. Ar ben hynny, rydyn ni wedi cadw nifer o sbrigiâu ar gyfer ymchwilio ymhellach.

Amser a ddengys a yw *Hypoxylon fuscoïdes* yn bresennol mewn mannau eraill ym Morgannwg – dyna her o ystyried nifer y coed gwern!

Ar ben hynny, mae Mark ac Emma Williams wedi fy hysbysu o hyd bod ffwng prin arall wedi cael ei ddarganfod, sef **Hypocreopsis rhododendri**, yn ardal Llantrisant. Anfonodd Emma y canlynol ataf: 'Efallai'n wir eich bod yn cofio Mark yn cysylltu â chi ym mis Tachwedd y llynedd, mewn perthynas â'm mab Callum yn dod o hyd i ffwng **Hypocreopsis rhododendri**. Yn anffodus, yn sgîl rhyw drawsffurfio rhywiol cymhleth y bydd yn mynd drwyddo, nid oedd modd i Erddi Kew gadarnhau taw'r uchod ydoedd, neu rywogaeth newydd, gan fod asid diocsiriboniwclêig yn newid drwy gydol cylchoedd bywyd. A ninnau wedi aros, a dychwelyd bob mis i'r safle er mwyn archwilio a yw wedi dychweliad, roeddwn i ar ben fy nigon yn cael hyd iddo ddydd Sadwrn 24ain Medi, a chymerais sampl cyn i'r gwiwerod roi diwedd arno. Roedd wedi cyrraedd cam holl bwysig bwrw hadau, sy'n allweddol ar gyfer adnabod, ac, o dan gyfarwyddyd Brian Douglas o Erddi Kew, medrwn ynysu sborau a sicrhau cael delweddau microsgopig. Er bod angen mesur y rhain, mae Brian yn hapus i gadarnhau taw ffwng *Hypocreopsis rhododendri*, yw hwn yn wir, a bod modd ei gofnodi fel un o'r fath'. Anfonodd Emma nifer o luniau eithafol o'r sborau ac o'r ffyngau cyfan hefyd, sydd i'w gweld yn sicr yn braf iawn ac yn debyg i fenig. Mae *Hypocreopsis rhododendri* yn rhywogaeth brin o hen brysgoed cyll (hazel coppice). Mae'n ddarganfyddiad arwyddocaol arall o bwys

Dal i'n cyrraedd o hyd mae'r cofnodion ffyngau prin (rhai Mark Steer drwy e-bost); 'Un arall i'w ychwanegu at y rhestr. Cefais gadarnhad gan Nigel Stringer (arbenigwr cawod goch yn Sir Gaerfyrddin) taw **cawod goch** (*Melampsorium*

hiratsukanum) y cefais hyd iddi ar wern. Yn debyg iawn i **M.betulinum** (weithiau ar wern, ond y mae bedw yn brif organeb letyol iddo) ac y mae'n bosibl y cafodd ei gymysgu ag ef yn y gorffennol. Dim ond 62 o gofnodion sy gan Gronfa Ddata Cofnodion Ffyngau Prydain ac Iwerddon ar gyfer hyn, ond nid dyna'r darlun cyfan o bell ffordd. Cefais hyd iddo yn gynharach yn y flwyddyn ar gors Crymlyn, ac rwy'n meddwl fod gan Nigel gryn nifer o gofnodion o Gymru.'

Yn y cyfamser, anfonodd Emma wybodaeth bellach yn dilyn ymweliad gan Grŵp Ffyngau Morgannwg â thirwedd rewlifol, hardd Pen-psych a Chwmsaerbren (Blaenrhondda), 'Rwyf wedi treulio'r deuddydd ym Mhen-psych yn bennaf, ac yn hel tipyn o restr! Nifer o rywogaethau, o'r prin i'r anghyffredin, gan gynnwys y **cap tylllog parasitig (parastic bolete)**. Mae llawer yn rhagor o ffyngau prin wedi dod i'r golwg, gan gynnwys **Inocybe calamistrata**, **Cortinarius mucifluoides**, **Cortinarius varicolor** a **Cortinarii newidiol**, i enwi ond ychydig!'

Ac i grynhoi blwyddyn ffyngau eithriadol o gynhyrchiol, daeth Mark Evans o hyd i ffwng **Encoelia fimbriata** ym Mhen-y-waun. Anfonodd ef lun ataf yn dangos clystyrau o'r Encoelia fimbriata yn tyfu ar gangen fwsoglyd, ac yn ymddangos yn debyg i glystyrau o filflodau môr melynwyrdd mewn rhyw bwill dŵr glan môr llawn gwymon, pethau anhygoel i'w gweld. Gwiriais ddosbarthiad Encoelia fimbriata ar wefan y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, ac fe ymddengys taw cofnod Mark yw'r unig un!

Cennau

Yn dynn ar sodlau'r Encoelia fimbriata, anfonodd Mark Evans y canlynol: '*Euthum i ymweld â Gwarchodfa Natur Pwll Waun Cynon brynhawn heddiw, i gael golwg ar y lle. Cefais hyd i ffwng parasitig yn byw ar y cen **Xanthoria parietina**, yn tyfu ar ddraenen wen fechan, ochr yn ochr â'r domen wair. A minnau yn gosod y camera er mwyn tynnu llun ohono, sylwais gen deiliog melynaudd ar gangen gyfagos. Tynnais lun o'r Xanthoria, a chasglu sampl o'r ffwng, ac yna trois fy sylw at y cennau eraill. Er taw unigolyn bychan ydoedd (15-20mm ar draws), ond nid oedd camgymryd **cen llygad aur (Teloschistes chrysophthalmus)**, gyda'i apothecia â rhimyn melyn'. Dyma'r ail gofnod o gen llygad aur o Gwm Cynon. Tan yn ddiweddar iawn, câi'r cen llygad aur gyda rhimyn pelydrau haul ei ystyried yn brin iawn, iawn, yn y Deyrnas Unedig. Er iddo gael ei gofnodi yn amlach mewn mannau arfordirol megis Swydd Dorset, mae hyn yn dal yn ddarganfyddiad cyffrous ac arwyddocaol, yn enwedig mewn lleoliad mewndirol. Fel y soniodd Mark, mae'n anhygoel fod cennau mor brin yn ffynnu yng Nghwm Cynon. Mae hyn yn dystiolaeth o ansawdd da aer Cymoedd y De.*

Glöynnod a Gwyfynod

Roedd 2016 yn flwyddyn arbennig ar gyfer ein glöynnod. Ymddengys fod cyfuniad gaeaf cynnar gwlyb a mwyn, ac yna aeaf a gwanwyn hwyr, hir, a maith wedi cael effaith go iawn ar y glöynnod hynny sy'n gaeafu fel oedolion. Fel y nododd Ben Williams ym mis Ebrill '*Ymddengys glöynnod yn hwyr eleni, ond ni welais ond dau **felyn y rhafnwydd (brimstones)** a dwy **fantell garpiog (commas)** hyd yn hyn. Roedd y ddwy rywogaeth yn niferus y llynedd, a disgwyliais weld rhagor y gwanwyn hwn, ond efallai fod y gwlybanaeth wedi mynd yn drech na hwy.'* Dyna fel y bu hi yn wir, ac roedd melynion y rhafnwydd, **trilliwiau bach (small tortoiseshells)**, **mentyll paun (peacocks)** a mentyll carpiog i gyd yn eithaf prin yr haf hwn. O ran egluro,

nododd Margaret Harding yn yr hydref, 'Roeddwn i mor falch i gael un glöyn yn fy ngardd o'r diwedd, **mantell goch (red admiral)**. Cefais gymaint o siom eleni, ond roeddwn i'n chwilfydig i weld beth mae'r cyfrifiad glöynnod yn ei ddangos ar gyfer gweddill y wlad.'

Ym mhob rhan o'r wlad hon, ymddangosai fod **brithegion y gors** yn dioddef yn wael o dywydd rhyfedd ac anhygoel y gaeaf, a'r gwanwyn oer hir. Serch hynny, gwelodd Ben frithegion y gors ar safleoedd yn Nhonyrefail a'r Hirwaun tua diwedd mis Mai. Ar 8^{fed} Mehefin, aeth Lucy Blomfield '*... ar gefn beic i Ddwyrain Tonyrefail heddiw. Gwelais gyfanswm o 30 o brithegion y gors, sef 22 yng nghae 17, a dim ond wyth yn unig yng nghae 16, llawer ohonyn nhw fel petaen nhw wedi gweld dyddiau gwell*'. Mae'r gytref brithegion y gors a gafodd ei ddarganfod ym Mhentre'r Eglwys yn ddiweddar wedi cynhyrchu 11 o wrywod, yn ôl Ben, ar ôl un awr o chwilio. Yn anffodus, nid yw'r tywydd claeaf yn ail wythnos mis Mehefin wedi cyflwyno a dangos y niferoedd mawr yr oeddem ni wedi gobeithio amdany'n nhw. Yn ôl nodyn arall gan Ben 'Aeth Richard Smith â fi i fyny i Gwm Clydach. Er nad oedd unrhyw frithegion perlog bach (small pearl bordered fritillary) yn hedfan i fyny yno, mi welsom ni un **gwibiwr llwyd (dingy skipper)**, tri **chopor bach**, pedwar **gwyn blaen oren (orange tips)** a dau **wyn gwythiennau gwyrddion (green veined whites)**, ddim yn ffôl wedi'r cyfan.' Yn gynnar ym mis Mehefin, aeth Alan Rosney allan '*...yng nghwmni Paul Denning fore heddiw i ambell safle yn Nhonyrefail. Gwelon ni bump **brithribin gwyrdd (green hairstreaks)**, saith britheg y gors, ac ambell i wyn blaen oren*'.

Aeth Ben ym mis Gorffennaf '*... i lawr i Ystad Ddiwydiannol Trefforest fore heddiw i chwilio am **frithribiniau wen (white letter hairstreaks)** ar fy hoff onnen. Gwelais bedwar unigolyn yn hedfan ar hyd lle er gwaetha'r gwynt cryf. Gwaetha'r modd, mae clefyd llwyfenni'r Iseldiroedd (Dutch Elms Disease) ar y goeden. Mae'n debyg y bydd hi'n marw o fewn ychydig flynyddoedd. Bydd raid i mi chwilio am safle arall mewn mannau eraill*'. Mae clefyd llwyfenni'r Iseldiroedd yn bresennol yn Rhondda Cynon Taf. Bydd yn lladd yn gyfnodol gyson y **llwyfennau llydanddail (wych elms)** y mae larfâu'r glöyn yn bwydo arny'n nhw. Yn ffodus, ac yn wahanol i lwyfen Lloegr, nid yw hyn yn effeithio yn gyfan gwbl ar ein llwyfen lydanddail frodorol. Ar yr un pryd, mae'n drueni bod prif goeden Ben wedi mynd. Roedd hi'n goeden braf iawn.

Tua diwedd yr haf, roedd Ben yn ôl yn Nhonyrefail, yn chwilio am weoedd larfal britheg y gors. '*Euthum draw i Donyrefail fore heddiw ac, yng nghwmni Paul Denning a Lucy Blomfield, dyma ni yn cyfrif 37 o weoedd larfal ar Safle 16. Mae hyn yn llai o dipyn na'r llynedd, ond yn dal yn nifer sylweddol. Roedd rhan fwya'r gweoedd yn fawr, gyda niferoedd da o lindys, tua 6mm o ran hyd ar gyfartaledd.*'

Fel rhan o ddiwrnod cofnodi llwyddiannus iawn Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru yng Nghwm Dâr ar Orffennaf 21^{ain}, roedd Mark Evans wrth law gyda'i drap gwyfynod a chofnododd 84 o rywogaethau. Yn ôl ei esboniad, '*Rhodes Martin Bell a Martin Bevan gymorth i fi lusgo fy holl offer i fyny'r tyle i frig y domen, a dyna le gosodais fy nhrap Skinner. Cyn iddyn nhw gyrraedd, roeddwn i wedi gosod trap Heath 15 watt ar gwr y goedwig, ar ddibyn Cwm Nant-rhiw-llech, tua hanner ffordd i fyny'r tyle. Er gwaethaf cawod ysgafn (yr unig un, diolch i'r drefn) ychydig cyn hanner nos, buom yn trapio tan 03:25, a dal nifer dda rhwng y ddau drap. Dau ficrowyfn oedd yr uchafbwyntiau. Daeth y rhain i'r fei a minnau i lawr gyda Dave Slade, a Martin Bell a dynnodd y lluniau ohonyn nhw. Roedd **Argyresthia***

pygnaeella ac **Agonopterix nervosa** ill dwy yn rhywogaethau newydd i sgwâr SN90, ond, yn ôl y disgwyl, roedd mwyafrif y rhywogaethau a ddaliwyd yn y trap Skinner yn newydd i'r safle (SN9702). Rwyf wedi atodi'r rhestr lawn.'

Ym mis Mehefin, ymwelodd George Tordoff â'r Graig (Billy Wynt), Llantrisant, a gweld y microwyfn du a gwyn hardd **Anania funebris**. Ymddengys taw'r Graig yw'r safle gorau yn y wlad ar gyfer y rhywogaeth brin hon. Nododd George iddo weld 13 o **frithegion perlog bach (small pearl bordered fritillaries)**, hefyd, gyda phump gyda'i gilydd yn bwydo ar lysiau'r-gwrid gwyrdd. Fel y nododd Richard Smith: '*Mae'r 13 o frithegion perlog bach yn newyddion da, gan iddyn nhw ddiflannu o'r safle yn ôl pob golwg yn y 2000au cynnar, ymhell cyn y gwaith rheoli adferiad cynhyrchiol mewn blynyddoedd diweddar. Nid wyf wedi'u gweld oddi ar hynny, er na fyddaf yn ymweld â'r safle yn aml iawn. Fe wnaeth Richard W. sylwi ar fritheg werdd yn dodwy wyau y llynedd, sydd i'w weld yn ffenomen newydd ar gyfer y safle. Dyma newyddion pellach i ni felly fod modd i rywogaethau gael hyd i gynefinoedd gwych yn y pen draw! Gobeithio'n wir taw'r fritheg frown fydd nesaf!*'

Rydyn ni wedi nodi ar y cyd dros y blynyddoedd mor gyfnewidiol yw hynt a helynt ein glöynnod. Fe soniodd Paul Marshman yr haf hwn taw **gweirlöynnod y perthi (gatekeepers)** bellach yw'r glöyn mwy cyffredin ar ei libart ef yn Llwynypia yr haf hwn - er taw mor ddiweddar â 1995 roedd gweirlöynnod y perthi wedi cytrefu ei ran ef o Gwm Rhondda. Yn yr un modd, fe ymddangosodd **gweirlöynnod y glaw (ringlets)** yno gyntaf y llynedd (2015), ac eleni fe welodd Paul nhw ar nifer o safleoedd yn ei ardal. Dyma rywogaeth arall felly sydd wedi symud i mewn (roedd gweirlöynnod y glaw yn eithriadol o gyffredin yn ardal Llantrisant eleni, ac roedden nhw i'w gweld heb ddiodeff dim problemau gyda'r tywydd). Gwrthgyferbynnodd Paul y rhywogaethau hyn sy'n cytrefu ac anffawd y **trilliwiau bach**. Yn hollol i'r gwrthwyneb fu hanes y rhain, oedd ymhob man ar unwaith ond na fydd neb prin byth yn eu gweld erbyn hyn). NODER O'r diwedd, ym mis Hydref, mi welais ychydig drilliwiau bach a mentyll carpiog (argoel o bethau gwell i ddod, o bosibl), a threuliodd ychydig fentyll carpiog y mis hwnnw yn gwledda ar ellyg sy'n pydru o dan y goeden ellyg sydd â'i bôn yn gen i gyd.

Gwenyn a phethau eraill

Yn ôl tystiolaeth gref, bydd adfywiad naturiol cynefinoedd (o'r banciau a chronfeydd hadau lleol) yn gweithio yn well na hadu blodau gwyllt. Un enghraifft o hyn oedd ardal ar Domen Glofa'r Albion. Ar ôl i waith peirianeg darfu arni, gadwyd iddi ymadfer yn naturiol. Dyma neges gan Liam Olds ym mis Mai canlynol: '*Euthum allan heddiw i Domen Glofa'r Albion, gan ei harchwilio am wenyn unig. Un peth yn arbennig yr hoffwn i'i ddweud, sef bod gadael adran waelod y domen i adfywio yn naturiol yn syniad da. Gwelais lwythi o dystiolaeth o wenyn turio yn nythu yn y gwastraff sydd wedi'i ddatguddio. Roedd heidiau o wenyn benywaidd **Halictus rubicundus** yn chwilio am nyth, a gwelais lawer o rai **Lasioglossum morio** yn chwilio am nyth, a sylwi ar ychydig dyllau nythu hefyd. Ar ben hynny, gwelais **Andrena bicolor**, **Andrena nitida** ac **Andrena migroaenea**, i gyd yn yr adran waelod honno. Roedd llawer o wenyn benywaidd **Nomada fabriciana** yn chwilio am nythod lletyol hefyd. Mae rhywbeth afreal am nifer y chwilod yn yr adran waelod honno hefyd - heidiau o **chwilod carabid** yn rhedeg ym mhob man. Y llynedd mi welais chwilen garabid (ground beetle) o dan bob un bron o'r cerrig a gafodd ei throï drosodd yn yr adran waelod honno - mae'n amlwg eu bod yn hoffi'r holl dir llwm.*'

Rwy'n argyhoeddedig y dylwn i osod pydewau maglu yma. Fodd bynnag, rhyw feddwl oeddw'n i y byddech chi'n falch i glywed fod gadael yr adran waelod i'w weld yn ddefnyddiol i'r pryfed'.

Ym mis Gorffennaf, cofnododd Paul Denning y **gacynen llus (*Bombus monticola*)** hardd 'yn bwydo ar flodau ger maes parcio'r llyn uchaf' yng Nghwm Clydach, Fel y soniwyd o'r blaen, mae llawer o rywogaethau pryfed yn symud, gan symud tua'r gogledd gyda'r tywydd cynhesach. Er bod mamaliaid ac adar yn cymryd ychydig yn fwy o amser er mwyn ymateb, bu'r cytrefu mewn ardaloedd gogleddol gan rywogaethau o bryfed deheuol yn llawer iawn cyflymach. Mae symudiadau ar y cyd (a pharhaus) gwahanol rywogaethau o bryfed tua'r gogledd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig yn ffenomen naturiol anhygoel i'w gwyllo (wel, mae ymateb y pryfed yn naturiol). ***Colletes hederæ (ivy bee)*** yw'r rhywogaeth ddiweddaraf, sydd i'w gweld yn debyg i wenynen fêl streipiog drawiadol. Hon fel arfer fydd y wenynen olaf sy'n ymddangos yn y flwyddyn. Bydd yn dod i'r amlwg tua chanol mis Medi, gan fwydo bron yn unig ar flodau gwyllt. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae hi wedi cytrefu Ynys Prydain i gyd. Eleni, fe gefais hyd i un fenywaidd yn bwydo ar eiddew yn fy ngardd gefn tua chanol mis Medi. Dyna pryd y gwelodd Sue Westwood dair ohonyn nhw drannoeth ar eiddew yn Nhonysguboriau. Nododd Liam: '*Peth rhyfedd ond fe'u cofnodais yn Nhonysguboriau ddydd Sadwrn hefyd, yn ogystal ag ar Ystad Ddiwydiannol Ynysmaerdy (ger y Bathdy Brenhinol)*'. Ni chofnodwyd y gwenyn hyn y llynedd ond ar hyd ymyl arfordirol Morgannwg yn unig. Eleni, ar y llaw arall, gwelon ni reng flaen eu cytrefu yn cyrraedd Rhondda Cynon Taf. O fewn blwyddyn neu ddwy, mae'n debyg y deuan nhw'n rhywogaeth gyfarwydd, yn bwydo ar eiddo sy'n blodeuo ym mhob man ar draws Rhondda Cynon Taf. Un peth diddorol oedd y cofnod hwn y llynedd gan Jay Kynch yn yr Efail Isaf: '*Roeddwn i'n amau fy mod wedi dod o hyd i wenyn **Colletes hederæ** ar Fferm y Lan, ond mae'n debyg taw picwn coch Ewropeaidd (European hornets) oedden nhw. Un hydref yn rhy gynnar oedd Jay, dyna i gyd, ond cofnod ardderchog oedd un picwn coch fodd bynnag. Dyma rywogaeth arall nad oedd i'w chael yn Rhondda Cynon Taf 20 mlynedd yn ôl). Gwelais rai ar nifer o achlysuron eleni ar Gors Llanilltud Faerdref*

Mae Liam Old wedi parhau â'i waith asesu creaduriaid di-asgwrn cefn gwastraff glofa. Tryddiferiad, neu drylifiadau gwlyb, sy'n un o gynefinoedd arbennig gwastraff glofa. Er bod rhan fwyaf y mân afonigau hyn yn asidig weithiau fe fyddan nhw'n llifo â dŵr calchaid. Fe welodd Liam a minnau waddodion twffa (dŵr calchaid) ar drylifiadau yng Nglofa'r Cwm. Mae Liam wedi cofnodi nifer o glêr prin ***Hermetia illucens*** hefyd. Fe'u gwelodd ar rai tomenni penodol: mae larfâu'r clêr yma yn byw yn y tryddiferiadau. Pryfed lliwgar iawn yw'r clêr yma, gyda marciau glas, gwyrdd, aur ac efydd. Mae llawer ohonyn nhw wedi derbyn enwau eithaf difyr ar lafar sy'n cyfleu rhyw naws filwrol - 'Cadfridog', ayyb. O blith y clêr yma a gofnododd Liam, mae'n debyg taw ***clêr Oxycera pardalina*** oedd y rhai mwyaf dethol. Yn ôl disgrifiad Liam: '*Maen nhw ar gael yn eang mewn sawl man, ond yn brin iawn (dim cofnod dymunol, felly) ac wedi'u cysylltu'n gryf â thryddiferiadau calchaid (sy'n ddiddorol iawn)*'. A dyna ein tomenni glofa yn dangos y dyfnderoedd cudd sydd wrth gefn o ran bioamrywiaeth, sef trylifiadau tra-fasig - pwy fyddai wedi meddwl?

Anfonodd Emma Williams lun o chwilen oedd ag antenâu hir du a chorff coch. Roeddwn i'n meddwl taw chwilen hirgorn ydoedd, ond roeddwn i'n anghywir. Dyma esboniad Emma: '*Stori fach arall i godi calon rhywun - fe ddarfu i mi weld chwilen*

*genedlaethol anfynych yn agos i rodfa mynedfa Pen-pych ddoe, sef **Platycis minutus**! Grŵp ar wahân i'r chwilod hirgorn yw Platycis. Cefais innau hefyd fy nrysu'n llwyr gan ymddangosiad y chwilen, ond grŵp y chwilod hirgorn sy'n fy nghynghori i dynnu sylw'r swyddog ecolegol ar gyfer yr ardal yn sgîl ei phrinder, ac er mwyn gofalu i sicrhau fod cynefin coetir yn cael ei warchod'.*

I gloi yn olaf, mae Christopher Lawrence a Liam Olds wedi treulio'r haf diwethaf yn diffinio ac yn ailddiffinio presenoldeb **pryfyn Adelphocris quadripunctatus**. Ar ôl i Christopher a Liam gael hyd i'r pryfyn mewn cronbwl ar Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys, maen nhw wedi cael hyd i rai mewn gwahanol fannau o fewn ardaloedd glaswelltir yn y Beddau, Comin Llantrisant, Coed-elái, a Chwm Clydach. Er mawr syndod, y cofnodion hyn yw'r cofnodion cyntaf yng ngwledydd Prydain ers blynyddoedd lawer, ac roedd y cofnodion blaenorol hynny i gyd o Dde Lloegr. Erbyn hyn, mae gwaith pellach wedi cael hyd i'r pryfyn brown a melyn hwn mewn lleoliadau eraill yn y De. Ymddengys fod ganddo gysylltiad arbennig â throed yr iâr a physen-y-ceirw gulddail (common and greater bird's-foot trefoil). Ni wŷr neb p'un a yw'r rhywogaeth wastad wedi bod yma yn y De ond bob amser heb ei ddarganfod, neu a yw wedi cytrefu yn ddiweddar. A dyma i chi un cofnod yn rhagor o'r gyfres o gofnodion bywyd gwyllt anhygoel yn Rhondda Cynon Taf yn 2016.

Mamaliaid

Cysylltodd Alan Roberts â fi mewn perthynas â **dyfrgi** marw ar ffordd yr A4093 ger safle Hendreforgan. Cododd adran y Parc ef a chafodd ie gasglu gan Brifysgol Caerdydd ar gyfer profion. Gwelodd David Harry un **ystlum pedol lleiaf** mewn cwt coed gardd yn gynnar ym mis Chwefror, ac roedd unigolyn yn bresennol yn gynnar ym mis Mai hefyd. A Ben Williams yn chwilio yng nghwmni Paul Denning a Lucy Blomfield am weoedd brithegion y gors, darfu iddo '*... weld **Ilygoden yr ŷd**. Sylwodd Paul arni yn rhedeg drwy'r glaswellt hir uchel, a buom ni i gyd yn ei gwyllo nes iddo neidio i lawr i blith yr isdyfiant'*. Fel y dywedasom o'r blaen, nid rhywogaeth y caeau gwenith mo lygod yr ŷd mewn gwirionedd, yn groes i'r grêd gyffredin. Porfeydd rhos a glaswellt y gweunydd twmpathog a thuswog yw'u hoff gynefin mewn gwirionedd.

Diolch eto am y cofnodion a chefnogaeth. Byddaf yn ymdrechu i lunio'r Cylchlythyr lawer yn gynt. Cofiwch barhau i anfon eich adroddiadau. Diolch o galon, a phob hwyl ar gyfer 2017.

Richard Wistow
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Tŷ Sardis
Heol Sardis
Pontypridd,
CF37 1DU

richard.j.wistow@rctcbc.gov.uk